# Adroddiad arolygu ar gyfer

**The Pines**

**Mona Terrace**
**Cricieth**
**LL52 0DE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**31 Fai 2017**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Cartref Nyrsio The Pines yng nghanol tref Cricieth. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal nyrsio a gofal personol ar gyfer hyd at 38 o bobl dros 65 oed, sydd wedi cael diagnosis o ddementia.
Cartref Nyrsio Madog cyfyngedig yw'r darparwr cofrestredig, ac maen nhw wedi enwebu rhywun i fod yn unigolyn cyfrifol. Gwen Maurice yw'r rheolwr cofrestredig.
Mae'r cartref yn darparu Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth sy'n esbonio'r gwasanaethau a gynigir.

## Crynodeb o'n canfyddiadau ni

### 1. Asesiad cyffredinol

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol a oedd yn archwilio cynnydd y cartref yn erbyn hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio fel y nodwyd yn yr arolygiad blaenorol. Gwnaethom ni; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); ganfod bod y gwasanaeth bellach yn bodloni ei ofynion cyfreithiol.

### 2. Gwelliannau

Yn yr arolygiad blaenorol, gwnaethom ganfod y meysydd o ddiffyg cydymffurfio canlynol, ac yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gynnal prawf i ddatrys p'un a oedd y gwasanaeth bellach yn cydymffurfio.

Rheoliad **10 (1),** mae hwn yn ymwneud â phrinder tystiolaeth i ddangos bod y cartref yn cael ei redeg gyda gofal a medrusrwydd digonol. Nodwyd hwn oherwydd diffyg aelodau staff
i ddiwallu anghenion pobl, a diffyg goruchwyliaeth glinigol o ran anghenion gofal newidiol y bobl.
Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom samplu cynlluniau gofal iechyd a dogfennau monitro iechyd, a gwelsom fod y cartref yn cael ei reoli mewn ffordd gadarn, gyda gwell goruchwyliaeth glinigol o ran anghenion y bobl. Gwelsom o rotâu'r staff, a datganiadau a roddwyd i ni gan y staff â'r rheolwyr, bod y cartref bellach wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio aelodau staff newydd, sy'n cynyddu nifer cyffredinol yr aelodau staff sydd ar gael ar ddyletswydd. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad hwn bellach wedi cael ei gyflawni.
Rheoliad **12 (1) (a)**, rhoddwyd hwn o ganlyniad i ddiffyg atgyfeiriadau amserol i arbenigwyr megis arbenigwr hyfywedd meinwe, deietegwyr a therapyddion iaith a lleferydd. Rhoddwyd hwn yn ogystal â phroses annigonol o fonitro anghenion hydradu a maeth pobl; gofal mannau pwyso; a cholli pwysau profedig a chyson y bobl.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom samplu dogfennau monitro iechyd a siartiau pwysau pobl, a chanfuom fod yr asesiadau ynglŷn ag anghenion newidiol gofal iechyd y bobl yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom fod atgyfeiriadau at arbenigwyr gofal iechyd yn cael eu gwneud mewn ffordd amserol. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad hwn bellach wedi cael ei chyflawni.

Rheoliad **15 (1),** mae hwn yn ymwneud â chynlluniau gofal pobl nad oeddent yn cynnwys digon o fanylder i arwain gweithwyr gofal i roi gofal diogel, holistaidd, a chadarn. Nid oedd y cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, nac yn cynnwys gwybodaeth o ran anghenion unigol pobl.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom samplu detholiad o ffeiliau gofal pobl, a chanfuom eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae'r cartref bellach yn defnyddio'r ddogfen "Dyma Fi", sy'n rhoi manylion am hanes, hoffterau, a chas bethau'r unigolyn, a sut yr hoffent dderbyn eu gofal. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad hwn bellach wedi cael ei chyflawni.

Rheoliad **16 (2) (c) (g),** nodwyd yr achos o dorri'r rheoliadau hyn oherwydd dillad gwely y nodwyd eu bod yn hen ac wedi'u treulio ar welyau rhai pobl. Gwelsom nad oedd y llestri yn addas i'w diben gan fod y platiau yn fach, ac nid oeddent yn cynnwys gardiau ar eu hymyl, a oedd yn golygu bod pobl yn gollwng eu bwyd. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y dillad gwely yn addas, a bod powlenni dwfn a gardiau platiau wedi cael eu harchebu ar gyfer pobl. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad hwn bellach wedi cael ei chyflawni.

Rheoliad **16(2) (i),** mae hwn yn ymwneud â'r anawsterau a nodwyd o ran cynnig bwyd addas, iachus, a maethlon yn ôl gofynion rhesymol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y bwydlenni a gynigir i'r bobl yn amrywiol a bod dewisiadau eraill ar gael pe na fyddai pobl yn hoffi'r prif bryd o fwyd a gynigir. Gwelsom fod byrbrydau a diodydd ar gael drwy gydol y dydd. Gwelsom fod mwy o staff ar gael i gynorthwyo pobl gyda'u hanghenion deietegol. Gwnaethom dderbyn holiaduron gan bobl y mae eu perthnasau yn defnyddio'r gwasanaeth a oedd yn nodi bod y bwyd a gynigir yn y cartref wedi gwella. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad hwn bellach wedi cael ei chyflawni.

Rheoliad **18 (1) (a),** rhoddwyd hwn gan na lwyddodd y darparwyr i sicrhau bod unigolion digon medrus a chymwys, sydd yn meddu ar y cymwysterau priodol, yn gweithio mewn niferoedd digonol yn y cartref i sicrhau iechyd a lles y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom dystiolaeth o rotâu a ffeiliau staff bod rhagor o staff wedi cael eu recriwtio i weithio yn y gwasanaeth. Mae cydymffurfiaeth â'r Rheoliad hwn bellach wedi cael ei chyflawni.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw ofynion nac argymhellion pellach yn ystod yr arolygiad â phwyslais penodol hwn.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae cydberthnasau cadarnhaol gan y bobl sy'n byw yn y cartref â'r staff, ac maent yn gallu gwneud y pethau sydd o bwys iddynt er mwyn iddynt dreulio'u diwrnod yn braf.

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn cael eu galluogi i aros yn iach ac egnïol. Gwelsom fod staff gweithgareddau pwrpasol yn y cartref sy'n cynnig rhaglen o weithgareddau i bobl sy'n cael eu teilwra i'w hanghenion unigol. Gwelsom fod y staff yn sgwrsio gyda phobl ynglŷn â'u diddordebau a'u teuluoedd, ac yn adnabod pobl fel unigolion. Gwelsom fod rhywfaint o waith crefft, celf, a garddio wedi'u gwneud er mwyn darparu gweithgareddau egnïol i bobl. Roedd byrddau gweithgareddau wedi cael eu datblygu ar gyfer pobl sy'n ymddiddori mewn gwrthrychau mecanyddol a thrwsio pethau. Gwelsom dystiolaeth o nosweithiau cerddorol, a digwyddiadau thematig megis penblwyddi, y Nadolig, a'r Pasg yn cael eu dathlu yn y cartref. Mae pobl yn cael eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a pharhau i gael eu hysgogi yn y cartref.

Mae pobl yn profi cynhesrwydd ac ymdeimlad o berthyn yn y cartref. Gwelsom fod y staff â'r bobl yn siarad â'i gilydd mewn ffordd gynnes, briodol, a naturiol. Gwelwyd y bobl a'r staff yn chwerthin ynghyd ac yn siarad yn frwdfrydig am bethau sydd o ddiddordeb iddynt. Mewn ymateb i'n holiaduron, dywedodd teuluoedd wrthym fod eu perthnasau yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff. Mae gan bobl gydberthnasau diogel a chadarnhaol yn y cartref.

Mae pobl yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith. Clywsom y staff yn siarad â'r bobl yn Saesneg a Chymraeg. Gwnaeth y rheolwr gadarnhau bod nifer sylweddol o'r staff yn gallu siarad Cymraeg, a bod staff yn gweithio ar bob sifft sy'n gallu siarad â phobl yn yr iaith sydd orau ganddynt. Mae ethnigrwydd pobl a'u dewis iaith yn cael eu parchu yn y cartref.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae pobl yn derbyn gofal ar yr adeg gywir yn y ffordd y maent am ei dderbyn yn y cartref.

### Ein canfyddiadau

Mae anghenion unigol pobl yn cael eu diwallu yn y cartref. Gwelsom fod cynllunio gofal pobl wedi gwella, a bod y cynlluniau gofal bellach yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn adlewyrchu anghenion a hoffterau pobl. Gwelsom fod y ddogfen "Dyma fi" yn cael ei defnyddio yn y cartref, sy'n cynnwys manylion am hanes personol pobl a'u hoff ddewisiadau o ran eu gofal. Mae hyn yn dangos bod y cartref yn gofalu am bobl fel unigolion ac yn parchu eu dewisiadau.

Mae anghenion iechyd cymhleth pobl yn cael eu rhagweld. Gwelsom fod y cartref yn fwy ymatebol ac amserol o ran gofalu am anghenion gofal cymhleth pobl. Gwelsom fod atgyfeiriad wedi cael ei wneud at ddeietegydd ar gyfer pobl sydd wedi colli pwysau, a bod pwysau pobl yn aros ar lefel fwy cyson yn y cartref. Gwelsom fod gofal briwiau pwyso pobl wedi gwella yn y cartref, bod monitro yn fwy cadarn, a bod atgyfeiriadau at arbenigwyr hyfywedd meinwe yn cael eu gwneud mewn da bryd. Mae'r cartref yn sicrhau bod y gofal a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a bod anghenion gofal cymhleth pobl yn derbyn sylw.

Mae anghenion maethol a hydradol pobl yn cael eu diwallu yn y cartref. Gwelsom fod dewisiadau wedi gwella ar y bwydlenni, ac yn cael eu harddangos hefyd ar fwrdd mawr yn yr ystafell fwyta. Gwelsom fod pobl yn gallu bwyta eu prydau bwyd yn annibynnol, lle bo'n bosibl, ac yn gallu defnyddio gardiau platiau pe bai angen. Gwelsom fod byrbrydau priodol a detholiad o ddiodydd yn cael eu cynnig yn aml i bobl yn y cartref. Gwelsom fod cymeriant pobl o fwydydd a hylifau yn cael eu monitro'n well gan y staff, a bod y defnydd o feddalwedd cyfrifiadur yn cynorthwyo'r staff gyda monitro a'r broses o gyfrifo cyfansymiau hylifau pobl ar ddiwedd y dydd. Mae'r cartref yn sicrhau bod pobl wedi'u hydradu, a'u bod yn derbyn digon o faeth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gwnaethom ganolbwyntio ar achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Rheoliadau o'r arolwg diwethaf yn ystod yr arolygiad hwn. Byddwn yn canolbwyntio ar yr amgylchedd yn fanylach yn ystod arolygiadau yn y dyfodol. Gwnaethom ganfod bod y cartref bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

### Ein canfyddiadau

Mae'r darparwr yn darparu digon o lieiniau a llestri ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod y dillad gwely a roddwyd i bobl mewn cyflwr boddhaol. Gwelsom fod llestri newydd megis powlenni dwfn sy'n haws i bobl eu defnyddio heb arllwys bwyd wedi cael eu darparu. Gwnaethom nodi bod gardiau platiau ar gael i bobl a oedd yn dymuno bwyta'n annibynnol, ond bod angen ychydig o gymorth arnynt. Mae'r cartref yn archebu nwyddau i sicrhau urddas a chyfforddusrwydd pobl, ac er mwyn iddynt gynnal eu hannibyniaeth.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r cartref yn cael ei reoli yn ofalus ac mae'r oruchwyliaeth glinigol o'r cartref a nifer yr aelodau staff wedi gwella.

### Ein canfyddiadau

Mae cyfraddau recriwtio a chadw staff wedi gwella yn y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym fod aelodau newydd o staff wedi cael eu recriwtio'n llwyddiannus. Gwelsom hefyd o'r rotâu staff bod nifer yr aelodau staff wedi cynyddu. Dywedodd yr aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo *"mwy fel tîm",* gan fod rhagor o staff bellach wedi cael eu cyflogi. Dywedodd y staff wrthym fod staff parhaol yn rhannu mwy o gyfrifoldeb o ran cynlluniau gofal ac asesiadau, a'u bod yn teimlo'n hapusach oherwydd hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, a'u bod yn cael digon o oruchwyliaeth a hyfforddiant, a chadarnhawyd hyn yn y cofnodion goruchwyliaeth a hyfforddiant a welwyd. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn y cartref.

Mae'r oruchwyliaeth glinigol a monitro iechyd wedi cael eu gwella yn y cartref. Gwelsom fod cynlluniau gofal pobl bellach yn cael eu cadw ar gyfrifiadur a bod nodiadau atgoffa yn rhoi gwybod pan oedd cynlluniau gofal ac asesiadau risg i fod i gael eu diweddaru. Gwelsom fod atgyfeiriadau arbenigol yn cael eu gwneud mewn da bryd ar gyfer pobl gydag anghenion gofal iechyd newidiol neu gymhleth. Roedd yr aelodau staff y buom yn siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth o ran anghenion gofal y bobl yr oeddent yn gofalu amdanynt. Mae anghenion gofal pobl yn cael eu rhagweld a'u sicrhau yn y cartref.

## 5. Gwelliannau y mae eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Rheoliad **10 (1)** mewn perthynas â diffyg rheoli medrus yn gyffredinol
Rheoliad **12 (1) (a)** mewn perthynas â phrinder atgyfeiriadau mewn da bryd i bobl at weithwyr proffesiynol gofal iechyd arbenigol.
Rheoliad **15 (1)** mewn perthynas â diffyg manylder mewn cynlluniau gofal pobl i arwain gweithwyr gofal at ofal cadarn. Nid oedd y cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
Rheoliad **16 (2) (c) (g)** mewn perthynas â dillad gwely a llestri nad oeddent yn addas i'w diben.
Rheoliad **16 (2) (i)** mewn perthynas â dewisiadau ar y fwydlen nad ydynt yn addas ar gyfer anghenion pobl.
Rheoliad **18 (1) (a)** mewn perthynas â chyflogi staff sy'n ddigon profiadol, ac mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn

Dim.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni nodwyd unrhyw argymhellion pellach ar gyfer gwella yn ystod yr arolygiad hwn â phwyslais penodol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad dirybudd â phwyslais penodol oedd hwn a oedd yn edrych ar y cynnydd a wnaed yn y cartref o ran cydymffurfio â Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Gwnaethom ni ymweld â'r cartref ar 8 Mawrth 2017 rhwng 10am a 2:50pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom ddefnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae’r dull SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi a chofnodi gofal mewn modd i'n helpu i ddeall profiad y bobl nad ydynt yn gallu cyfathrebu â ni.
- Cawsom drafodaeth â'r rheolwr cofrestredig, tri aelod o staff, a thri o berthnasau a oedd yn ymweld.
- Gwnaethom dderbyn holiaduron gan bedwar teulu â pherthnasau sy'n defnyddio'r gwasanaeth; dau aelod o staff; a gweithiwr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Defnyddir yr holiaduron er mwyn holi barn pobl ynglŷn â'r gwasanaeth.
- Aethom ar daith o amgylch y safle a'r cyfleusterau, gan gynnwys detholiad o ystafelloedd pobl.
- Gwnaethom edrych ar ystod eang o gofnodion a gedwir gan y gwasanaeth cofrestredig. Gwnaethom ganolbwyntio ar y rota staffio, dogfennau hyfforddiant a goruchwyliaeth, dwy ffeil staff, cynlluniau gofal pedwar unigolyn, bwydlenni a chofnodion gweithgareddau, y Datganiad o Ddiben, a'r Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Cartref Gofal i Oedolion – Pobl Hŷn** |
| **Person cofrestredig** | **Cartref Nyrsio Madog Cyf** |
| **Rheolwr Cofrestredig** | **Gwendolyn Maurice** |
| **Uchafswm y lleoedd cofrestredig** | **38** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **29/09/2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **08/03/2017** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | Cymraeg a Saesneg |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |